
Pam na fu Iesu'n awdur llyfr

“Yna plygodd eto ac ysgrifennu ar y llawr.” (adn. 8)

Beth am ddarlenn Ioan 8:1–11 ac yna myfyrio

Wrth ddirwyn ein myfyrdodau ar ‘Etifeddiaeth Crist’ i ben, mae’n rhaid i ni roi ar ddeall nad ydyn ni wedi dihybyddu’r pwnc o gwbl. Gallen ni fod wedi cynnwys esiampl ein Harglwydd yn ei fywyd o weddi, ei berthynas ag eraill, ei gariad at blant, sut yr oedd yn tystiolaethu i’w Dad, a’i ddulliau o ddysgu.

Mae pobl wedi holi drwy’r oesoedd pam na fyddai Iesu Grist wedi ysgrifennu llyfr, gan fod ganddo gymaint i’w gynnig i ddynoliaeth. Gymaint fydden ni wedi gwerthfawrogi hunangofiant. Yn wir, yr unig gyfeiriad at Iesu’n ysgrifennu ydy’r un yn y darlleniad heddiw. Ysgrifennodd yn y tywod, ond mae’r hyn ysgrifennodd wedi’i chwythu i ffwrdd gan y gwynt. Dywedodd Dr W.E. Sangster unwaith y gallai llyfr wedi ei ysgrifennu gan Iesu fod wedi ei droi’n rhyw eicon a’i ddatblygu i fod yn wrthrych eilunaddoliaeth. Eto, er nad ysgrifennodd Iesu lyfr erioed, ysbrydolodd ddynion i ysgrifennu’r pedair efengyl a’r epistolau fel y gallwn drwydynt ddeall ei ewyllys olaf. Addawodd Iesu y byddai’r Ysbryd Glân yn eu harwain yn yr holl wirionedd, yn dangos yr hyn oedd i ddod, ac yn ei ogoneddu ef.

Efallai y dylid ystyried y Testament Newydd ei hun fel canlyniad cyntaf yr addewid honno. Disgrifiodd y pregethwr P.T. Forsyth lythyrau’r Testament Newydd fel “epistolau ôl-argraffedig yr Iesu dyrchafedig”. Yn yr ystyr ddofn hon, y Testament Newydd ydy’r llyfr nad ysgrifennodd Iesu. Mae wedi gadael ei dystiolaeth i ni ym mhob tudalen o’r Testament Newydd. Hwn ydy hunangofiant Iesu yn y bôn.

Beth am fynd ymlaen i ddarlenn:

Ioan 20:30–31; 21:24–25; 1 Cor. 2:11–16; 1 Ioan 5:6–15; Dat. 1:1–20

Meddylwch am y cwestiynau hyn:

1. Sut oedd Paul yn ystyried yr hyn a ddysgai?
2. Pam ysgrifennodd Ioan ei efengyl a’i Ddatguddiad?

Gweddi

O Dad, dw i’n gwerthfawrogi’r modd mae gwaith y dynion a gafodd eu hysbrydoli gennynt yn rhoi dealltwriaeth i mi ac yn fy rhoi ar ben y ffordd. Rwy’ti wedi treiddio i’w geiriau ac yn cael dy ddatgelu ganddynt. Dw i mor ddiolchgar. Amen.